
# Asesu goblygiadau Brexit ar gyfer y celfyddydau

## Nodyn Briffio Cyngor Celfyddydau Cymru



Rhagfyr 2018 (diweddarwyd 05.09.19)

*Lluniau: Cefyn Burgess*

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
wales arts international celfyddydau rhyngwladol cymru

## Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

1. Yn dilyn y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2016, dechreuodd Llywodraeth y DU y broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae hyn i fod i ddigwydd ar 31 Hydref 2019. Os yw hyn yn digwydd gyda chytundeb, mae disgwyl i hyn wedyn gael ei ddilyn gan 'gyfnod pontio' - cyfnod pan fydd trefniadau gwleidyddol, ariannol a rheoliadol newydd ar gyfer perthynas y DU gyda'r UE yn cael eu cytuno.

2. Bydd ymadawiad y DU o'r UE yn achosi goblygiadau sylweddol i gyrff cyhoeddus Cymru a'r sefydliadau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi ganddynt, yn ogystal â chwmnïau llawrydd a bach yn y sector diwylliannol. Bydd llawer o faterion yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws y sector diwylliannol a threftadaeth. Ond mae rhai sy'n benodol i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

3. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i fod wedi'i ymrwymo'n gadarn i waith rhyngwladol yn y celfyddydau. Byddwn yn parhau i gefnogi anghenion y sector mewn unrhyw berthynas Ewropeaidd newydd, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n chwaer-sefydliadau yng ngweddill y DU i hyrwyddo golwg cydlynol o'r materion sy'n effeithio'r sector.

4. Wrth i'r dyddiad ymadael agosáu, rhaid i sefydliadau diwylliannol asesu'r risgiau (neu gyfleoedd) yn sgil Brexit sy'n benodol iddynt yn ofalus, gan gynnwys mewn senario 'dim cytundeb'. Mae llawer iawn o ansicrwydd yn parhau ynghylch Brexit – mae llawer o'r risgiau a'r cyfleoedd yn dibynnu ar benderfyniadau sydd heb eu gwneud eto. Ac mae llawer o hyn yn dibynnu ar ba un a yw setliad ymadael cytunedig wedi'i wneud erbyn mis Hydref 2019 neu a fydd y DU yn gadael heb fargen.

5. Yn amlwg, mae dwy 'ochr' i'r ddadl Brexit. Mae rhai sylwebyddion yn credu y bydd cyfleoedd masnachu newydd yn codi o ganlyniad i Brexit. Gall hyn fod yn wir. Fodd bynnag, er mwyn pwrpas y nodyn briffio hwn, rydym yn tynnu sylw at rai o'r prif feysydd y dylai'r rheini sy'n gweithio yn y sector creadigol yng Nghymru eu hystyried yn y dyfodol agos, ni waeth be fo eu barn am Brexit. Ni fydd y cyfleoedd a fydd ar gael yn y dyfodol yn amlwg tan fod y broses ymadael wedi cael ei chytuno arni.

6. Cofiwch na ddylid edrych ar y nodyn hwn fel cyngor cynhwysfawr neu ddiffiniol ar y camau y dylech eu cymryd. Fel bob amser, dylech sicrhau eich bod yn derbyn y cyngor cyfreithiol a thechnegol priodol sy'n benodol i'ch amgylchiadau unigol. Mae nifer o gymdeithasau a chynghorwyr proffesiynol erbyn hyn sy'n cynnig cyngor ar Brexit. (Mae Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol yn cynnig cyngor ymarferol defnyddiol ar amrediad eang o faterion Brexit.) Mae'n bwysig i chi ymdrin â hyn ar y lefel briodol, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ar lefel y bwrdd yn eich cwmni. Bydd ystwythder yn allweddol wrth eich helpu, yn y misoedd i ddod, i baratoi eich cwmni i fod yn ddigon ystwyth i wneud y newidiadau sydd eu hangen i ymdrin â'r heriau o'ch blaen.

## Cychwyn arni

7. Efallai nad ydych yn meddwl bod Brexit yn berthnasol i chi.
Fodd bynnag, os ydych chi'n…
   - teithio, trafeilio neu weithio'n rhyngwladol
   - cydweithio neu gyd-gynhyrchu gyda phartneriaid Ewropeaidd
   - gwerthu nwyddau a gwasanaethau dramor
   - mewnforio nwyddau a gwasanaethau i Gymru
   - cyflogi neu roi gwaith ar gontract i ddinasyddion yr UE
   - cael eich effeithio gan reoliadau rhyngwladol
   - cynllunio i ddatblygu perthnasau rhyngwladol

   … yna bydd materion ymarferol pwysig i chi eu hystyried.

---

Pa gamau y dylech eu hystyried?

- Nodwch unrhyw feysydd penodol lle gallwch gael eich effeithio'n sylweddol – os oes risgiau, gwnewch yn siŵr y caiff eu cynnwys ar eich Cofrestr Risg a'u hadolygu'n rheolaidd gan eich bwrdd
- Nodwch y ffynhonnell neu ffynonellau gorau am gyngor sy'n berthnasol i'ch anghenion, a byddwch yn ymwybodol y gall hyn newid yn rheolaidd nes y cyrhaeddir cytundeb
- Sicrhewch eich bod mor ystwyth â phosibl o ran y cyd-destun newid
- Sicrhewch eich bod yn monitro datblygiadau wrth i drafodaethau Brexit barhau
- Ceisiwch ragweld materion o flaen llaw, yn hytrach nag ymateb iddynt ar ôl y digwyddiad

---

## Materion gweithlu a mynediad at dalent

8. Yn y DU yn gyffredinol, mae tua 131,000 o wladolion yr UE yn gweithio yn y diwydiannau creadigol, gan wneud cyfanswm o 7% o'r gweithlu cyfan. Mae gweithwyr llawrydd a hunangyflogedig yn gwneud cyfanswm o 35% o'r sector a 33% o weithwyr yr UE. Mae iechyd y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn dibynnu ar gydweithrediad creadigol a chyfnewid syniadau a sgiliau. Gall newidiadau i reolau ynghylch rhyddid i symud (i bobl, nwyddau a gwasanaethau) gael goblygiadau felly ar gyfer recriwtio, cadw, datblygu sgiliau, a mynediad at dalent ryngwladol.
   Gall hefyd fod cyfyngiadau ar gadwyni cyflenwi neu fudiad deunyddiau sy'n ymwneud â chynhyrchu celfyddyd (llwyfan, llyfrau, offerynnau cerdd ac ati) neu, yn wir, gwasanaethau i ddatblygu talent – e.e. dosbarthiadau meistr. Sylwch y bydd setiau gwahanol o reoliadau'n llywodraethu'r meysydd hyn. Bydd y sector creadigol, o ran hyn, yn unigryw yn y ffordd y mae'n dibynnu'n aml ar bob un o'r tri.
   Disgwylir i Brexit dynhau polisi mewnfudo, a fydd yn cael ei gysylltu'n agosach â chyflogaeth. Mae'r rhyddid i symud yn fater sylweddol i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Dylech felly ystyried yr effaith y gall cyfyngiadau'r dyfodol ei chael ar eich gweithlu. Nid yw'n bosib rhagfynegi gyda phendantrwydd beth fydd canlyniadau terfynol trafodaethau presennol yr UE. Fodd bynnag, os ydych yn cyflogi gwladolion yr UE, neu os oes angen arnoch i weithio gyda nhw yn achlysurol neu dros dro, dylech feddwl yn ofalus ynglŷn â'r hyn y gall hyn ei olygu.

9. Mae cerddorfeydd, cwmnïau opera a dawns, a theatrau teithio i gyd yn dibynnu ar artistiaid gwadd (megis arweinyddion, unawdwyr, cantorion, dawnswyr, cyfarwyddwyr, dylunwyr) sy'n gallu trafeilio i mewn ac allan o'r DU. Gall hyn ddigwydd yn ddyddiol bron ac, yn aml, ar gyfer un digwyddiad yn unig. Efallai bydd angen i chi, ar fyr rybudd eithriadol, gael artistiaid eraill yn lle'r rhai sydd wedi gorfod gohirio oherwydd salwch neu anaf. Gall eu gwaith hefyd ddibynnu ar symud setiau ac offerynnau ac weithiau gwasanaethau.

10. Mae cael mynediad at y dalent orau yn un o'r ffyrdd y mae celfyddydau'n tyfu a ffynnu. Hyd yn hyn, mae gweithwyr proffesiynol creadigol o aelod-wladwriaethau'r UE wedi gallu dod i mewn ac allan o'r DU trwy drefniadau rhyddid i symud presennol.

    Bydd hyn yn newid ac efallai y bydd y newidiadau'n dod i rym ar adegau gwahanol ar ôl mis Hydref 2019, yn dibynnu ar a fydd cytundeb ai peidio.

    Os caiff y system fewnfudo sydd yn berthnasol ar hyn o bryd i artistiaid nad ydynt o'r UE/AEE ei chymhwyso i ddinasyddion yr UE, bydd opsiynau gwahanol i'w hystyried. Er enghraifft, mae'r system Cyflogaeth â Thâl a Ganiateir (PPE) yn gweithio'n dda, er bod y 30 diwrnod o gyfyngiad yn achosi rhai problemau i'r opera neu theatr, lle gall artist fod yn cael ei gyflogi am gyfnod hwy. Pe ymestynnwyd y system PPE i ddinasyddion yr UE, byddai risg o gyfyngiadau a biwrocratiaeth ychwanegol o'i chymharu â'r drefn bresennol.

11. Ar gyfer penodiadau tymor hwy, mae'r opsiynau fisa presennol (megis Haen 2 neu Haen 5), y gall gael eu defnyddio yn y dyfodol ar gyfer dinasyddion yr UE/AEE, yn gofyn i gyflogwyr yn y DU wneud cais am drwydded noddwr yn gyntaf. Gallai recriwtio, o dan y System Seiliedig ar Bwyntiau i Weithwyr Mudol, ychwanegu at y baich gweinyddol a chost recriwtio, gan gynnwys ffioedd fisa sylweddol.

12. Mater pellach yw bod y trothwy cyflog ar gyfer mynd i mewn i'r DU gyda chynnig swydd gychwynnol wedi cynyddu i £30,000, sydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer llawer o bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau. Mae hefyd risg na allai artistiaid iau sydd ar ddechrau eu gyrfa brofi i foddhad Llu Ffiniau'r DU eu statws a'u henw da a'r ffaith eu bod yn "weithiwr proffesiynol sefydlog".

13. Gallai cynllunio ymlaen llaw fod yn anoddach. Yn aml, bydd cwmnïau mwy yn gweithio ar gylchred gynllunio o rhwng dwy a thair blwyddyn. Golyga hyn, mewn rhai achosion, y byddant eisoes wedi ymrwymo i gontractau gydag artistiaid yr UE y tu hwnt i 31 Hydref 2019. Gallai hyn greu risg o ran costau a biwrocratiaeth ychwanegol nad ydynt wedi cael eu cynnwys mewn cyllidebau.

14. Yn yr un modd, gallai rhwystrau tebyg gael eu gosod ar artistiaid o Brydain yn teithio i Ewrop i weithio, ac efallai y bydd y trefniadau'n wahanol ar gyfer pob aelod-wladwriaeth yr UE. Bydd rhaid i gylchredau cynllunio fod yn hirach. Os na fydd cytundeb Brexit, gallai deiliaid pasbort y DU fod angen o leiaf tri i chwe mis o ddilysrwydd i deithio i aelod-wladwriaethau'r UE.

15. O dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, mae llawer o ddinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yn y DU, neu sy'n byw yma erbyn 31 Hydref 2019, yn gymwys i wneud cais am "statws preswylydd sefydlog", sy'n golygu y gallant aros am gyfnod amhenodol yn dilyn proses gofrestru. Y dyddiad cau i wneud cais yw naill ai 31 Rhagfyr 2020 os nad oes cytundeb neu 30 Mehefin 2021 os oes cytundeb. Mae gan Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol ragor o wybodaeth ddiweddarach i gyflogwyr am gynllun y statws preswylydd sefydlog (dolen ar ddiwedd y ddogfen).

16. Os nad oes cytundeb Brexit ar 31 Hydref 2019, bydd dinasyddion AEE a'r Swistir yn gallu dod i Brydain o hyd ac ymgeisio am Ganiatâd Ewropeaidd Dros Dro i Aros hyd ddiwedd 2020 i gael statws mewnfudo dros dro sy'n para am 3 blynedd. Rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad gan Lywodraeth Prydain yma.

Pa gamau y dylech eu hystyried?

- Adolygwch statws cyflogaeth/fisa eich staff presennol ac ystyried pa gyngor a chefnogaeth y gallai fod angen i chi eu rhoi ar waith
- Cefnogwch eich staff
- Adolygwch gontractau cyflogaeth a phroblemau fisa posibl ar gyfer cyflogeion, gweithwyr llawrydd a chontractwyr yn y dyfodol
- Sicrhewch eich bod yn cael y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r sefyllfa o ran fisâu a thrwyddedau gweithio, yn enwedig os oes gennych gynlluniau i deithio gwaith i wlad Ewropeaidd yn y dyfodol agos ar ôl Hydref 2019
- Ystyriwch wneud cais i'r Swyddfa Gartref am drwydded noddwr
- Darganfyddwch sut y byddech yn ymdopi pe bai angen brys cael artist newydd yn lle un nad oedd ar gael
- Sicrhewch fod gennych gronfeydd wrth gefn digonol yn eich cyllidebau ar gyfer costau ychwanegol annisgwyl

## Gweithio’n rhyngwladol ac ar draws ffiniau

17. Mae teithio a chyfnewid diwylliannol yn sylfaenol ar gyfer gweithio’n rhyngwladol yn y celfyddydau. Mae aelodaeth o’r Farchnad Sengl a’r Undeb Tollau wedi bod o fudd mawr o ran galluogi artistiaid a chwmnïau o Gymru i deithio ledled Ewrop, gan gynhyrchu refeniw a datblygu eu henw da rhyngwladol. Mater ymarferol allweddol o ganlyniad i Brexit allai fod gosod yr angen am fisâu, trwyddedau, a thollau a rhwystrau eraill wrth deithio i’r UE. Newidia hyn arfer busnes sefydledig yn sylweddol.

18. Ac nid pobl yn unig sydd ar fynd. Mae’r celfyddydau hefyd wedi cael budd o’r rhyddid i symud nwyddau – o offerynnau cerddorol i setiau theatr. Mae aelodaeth bresennol o’r Undeb Tollau yn dileu’r angen am drwyddedau a rheolaethau ffiniau wrth gludo offerynnau cerddorol ar draws ffiniau’r UE. Os gosodir rheolaethau ffiniau a thrwyddedau ar ôl i’r DU adael yr UE, bydd hyn yn ychwanegu’n sylweddol at y baich gweinyddol a chost wrth deithio i Ewrop.

19. Gallai fod materion eraill hefyd sy’n ehangu ymhellach na’r pethau ymarferol sydd ynghlwm wrth groesi ffiniau. Enghraifft o hyn yw ffurflen A1, sy’n atal taliadau nawdd cymdeithasol rhag cael eu didynnu pan fo gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau’n gweithio mewn gwlad arall yn yr UE. Bydd colli mynediad at y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd yn golygu y bydd rhaid i’r rheini sy’n teithio i Ewrop dalu mwy am yswiriant meddygol pan fyddant ar daith. Efallai na fydd trwyddedau ac yswiriant gyrwyr o’r DU yn ddilys.

20. Mae’r gylchred gynllunio ar gyfer cwmnïau teithio yn aml yn fwy na dwy flynedd ymlaen llaw’r perfformiad. Golyga hyn fod contractau â hyrwyddwyr yn yr UE wedi’u llofnodi eisoes ar gyfer y cyfnod ar ôl mis Hydref 2019. Golyga hyn fod ffioedd wedi’u gosod, a gallai unrhyw gostau ychwanegol sy’n dilyn ymadawiad y DU o’r UE achosi i deithiau sydd eisoes dan gontract golli arian.

21. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi llythyr ar GOV.UK i helpu busnesau sy’n masnachu â’r UE i baratoi i ymdopi â thollau os bydd y DU yn gadael yr UE heb fargen ar 31 Hydref 2019.

22. Gofynna’r llythyr i’r busnesau hyn gymryd tri cham nawr:

- cofrestru am rif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) y DU
- penderfynu a ydynt am ddefnyddio asiant tollau i wneud datganiadau mewnforio a/neu allforio neu a fyddant yn gwneud y datganiadau eu hunain gan ddefnyddio meddalwedd arbenigol
- cysylltu â’r sefydliad sy’n symud eu nwyddau (er enghraifft, cwmni cludiant) i ddarganfod a fydd angen iddynt gyflenwi gwybodaeth ychwanegol i gwblhau datganiadau diogelwch, neu a fydd angen iddynt gyflwyno’r datganiadau hyn eu hunain.

Pa gamau y dylech eu hystyried?

- Cyfrifwch pa gostau a biwrocratiaeth ychwanegol a fyddwch o bosib yn eu hwynebu os bydd rheolau a rheoliadau ffiniau’n newid
- Adolygwch eich contractau, trwyddedau ac yswiriannau
- Adolygwch eich ffioedd
- Ystyriwch farchnadoedd newydd ac archwiliwch mentrau a noddir gan y llywodraeth i ymgysylltu â marchnadoedd newydd
- Adolygwch unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith a fydd yn digwydd yn yr UE yn y misoedd yn union ar ôl mis Hydref 2019 a pharatowch gynllun wrth gefn i fynd i’r afael â risgiau posibl
- Ystyriwch y cyngor sydd wedi’i gynnwys yn llythyr y CThEM ar fasnachu gyda’r UE

## Ffactorau economaidd

23. Mae rhai sylwebyddion yn credu y bydd Brexit yn arwain at ddirywiad yn economi'r DU. Os yw'r economi'n parhau i fod yn ddirwasgedig, mae risg y bydd rhaid gwneud toriadau i wariant cyhoeddus. Gallai hyn olygu gostyngiadau pellach mewn cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau lleol Cymru. Efallai y bydd rhaid trosglwyddo'r rhain ymlaen i sefydliadau celfyddydol.

24. Gallai hefyd fod effaith negyddol ar roddion unigol, nawdd corfforaethol, ac arian oddi wrth ymddiriedolaethau a sefydliadau. Mae'r tair ffynhonnell o gyllid preifat i gyd yn dibynnu ar economi hynaws a thyfiant mewn buddsoddiad. Mae'r economi yng Nghymru wedi derbyn llawer o gymorthdaliadau gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Er bod Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i gynnal buddsoddiad mewn ardaloedd sydd ar ei hôl hi, mae'n aneglur sut yr ymdrinnir â hyn yn y dyfodol.

25. Mae'r llithriad yng ngwerth y bunt wedi cael canlyniadau cymysg. Os derbyniwch daliad mewn ewros neu ddoleri, byddwch wedi gweld cynnydd yng ngwerth y gwaith hwn. Os nad ydych, efallai bod y gwrthwyneb yn wir. Rhaid i hyn gael ei ragweld fel posibilrwydd wrth i chi gyllidebu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

26. Agwedd allweddol arall a gaiff ei phwysleisio ar gyfer sectorau eraill ond sydd hefyd yn bwysig ar gyfer y sector creadigol a diwylliannol yw cynnal cadwyni cyflenwi. Mae rhai agweddau sy'n hysbys i ni (tarddiad ein telynau) ac eraill sydd yn aneglur (y cydrannau sy'n cael eu defnyddio mewn technoleg sydd wedi'i haddasu, e.e. sŵn neu olau).

Pa gamau y dylech eu hystyried?

- Edrychwch yn feirniadol ac mewn modd fforensig ar sefydlogrwydd sylfaenol eich cwmni – a allai ymdopi â gostyngiad mewn cyllid?
- Gwiriwch eich bod yn gwneud popeth sy'n bosibl i amrywiaethu sylfaen eich incwm
- Aseswch i ba raddau y gallwch fod yn agored i ganlyniadau amrywiadau mewn gwerth arian
- Ystyriwch faterion sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi
- Ymgysylltwch ag asiantaethau'r llywodraeth (Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) a'u dulliau cefnogi sydd wedi'u dylunio i hwyluso'r trawsnewid i'r economi ar ôl Brexit
- Edrychwch ar farchnadoedd newydd am eich gwaith
- Defnyddiwch eich aelodaeth (neu dewch yn aelod) o gorff neu rwydwaith perthnasol yn y diwydiant (ABO, AIM, CIF, IETM ac ati)

## Cyllid

27. Mae'r UE wedi bod yn darddle pwysig ar gyfer cyllid i'r celfyddydau trwy'r rhaglen Ewrop Greadigol a rhaglenni ariannu eraill. Ar hyn o bryd, mae'n aneglur p'un a fydd cytundeb ar drefniant sy'n galluogi sefydliadau o'r DU i barhau i fod yn gymwys am arian. Os bydd cytundeb, mae'n bosibl y bydd prosiectau presennol yn parhau a bydd sefydliadau yn y DU yn gallu gwneud cais am gyllid hyd nes diwedd 2020. Os na fydd cytundeb, mae'n debyg na fydd mynediad at gyllid gan raglenni'r UE. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn gwarantu cyllid ar gyfer holl gynigion llwyddiannus gan bartneriaid yn y DU sydd â phrosiectau sy'n parhau y tu hwnt i'r dyddiad ymadael.

28. Am fwy o wybodaeth ar hyn a'r effaith bosibl ar eich prosiect penodol a ffrwd gyllido eich hun, cewch y diweddaraf gan yr asiantaethau cenedlaethol ar gyfer y ffrydiau hynny: Desg Ewrop Greadigol y DU, Erasmus+ y DU, a WEFO ar gyfer prosiectau ERDF/ESF yng Nghymru (dolenni ar ddiwedd y ddogfen).

29. Yn y tymor hwy, efallai y bydd yn bosibl cael mynediad at raglenni cyllid penodol yn yr UE fel trydedd wlad (e.e. Ewrop Greadigol, Erasmus+), ond gallai hyn ddigwydd o dan amodau gwahanol a gyda gwahanol symiau a strwythurau ariannu.

30. Yn y cyfnod rhwng 2007 a 2016 yng Nghymru, derbyniodd dros 150 o brosiectau tua £23 miliwn o gyllid gan yr UE.

Pa gamau y dylech eu hystyried?

- Os ydych yn rhan o brosiect UE ar hyn o bryd, cewch y newyddion diweddaraf ynglŷn â datblygiadau ynghylch trefniadau ariannu ar ôl mis Hydref 2019
- Os ydych wedi cyflwyno cynnig ac yn aros am y canlyniadau, cewch y newyddion diweddaraf ynglŷn â datblygiadau ynghylch eich cymhwysedd ar ôl mis Hydref 2019
- Aseswch i ba raddau y gallech fod yn ddibynnol ar gyllid gan yr UE
- Gwiriwch a fydd prosiectau neu gydweithrediadau yn y dyfodol yn ddibynnol ar gyllid yr UE
- Penderfynwch ar yr hyn y byddech yn ei wneud pe bai angen i chi ddod o hyd i rywbeth i gymryd lle y cyllid hwn

## Rheoliadau a chontractau

31. Mae cyfreithiau a rheoliadau'r UE wedi'u treiddio'n ddwfn o fewn arferion gweithio llawer o gwmnïau yng Nghymru. Mae cyfreithiau a rheoliadau'r UE yn effeithio'n uniongyrchol ar weithgareddau o ddydd i ddydd megis caffael, hawliau cyflogaeth, yr amgylchedd, diogelu data, ac iechyd a diogelwch.

32. Mae rhai meysydd rheoleiddio o bwys mwy i sectorau penodol. Er enghraifft, mae Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain a'r Undeb Cerddorion wedi tynnu sylw at yr angen i gadw'r Gyfarwyddeb Hawliau Teithwyr diwygiedig (a basiwyd eisoes gan Senedd Ewrop ond sydd angen ei chymeradwyo gan Gyngor y Gweinidogion). Mae hyn oherwydd ei bod yn cynnwys cymalau sy'n ymwneud â mabwysiadu polisïau teg a thryloyw gan gwmnïau hedfan ar gario offerynnau cerdd ar awyrennau. Unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE, bydd yn colli ei dylanwad dros y mathau hyn o reoliadau.

33. Mae meysydd allweddol eraill ar gyfer y diwydiannau creadigol ehangach yn ymwneud â'r DU yn tynnu'n ôl o Farchnad Ddigidol Sengl Ewrop a pharhad (neu ddim) yr egwyddor gwlad tarddiad, sy'n galluogi i gwmnïau fynediad hawdd i wledydd eraill yn yr UE. Mae hyn ynghlwm wrth y berthynas yn y dyfodol ac mae'n werth fod yn ystwyth er mwyn ymateb i'r hyn a gaiff ei gytuno neu sy'n peidio cael ei gytuno.

34. Ar hyn o bryd, mae tua 11,000 o reoliadau UE a 60,000 o safonau. Mae'r rhain yn cynnwys materion amrywiol megis ardaloedd masnach cyffredin, y sbectrwm radio ar gyfer microffonau diwifr, Eiddo Deallusol, y gwasanaeth post, y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, bancio a gwasanaethau ariannol. Mae hyn yn amlygu'r angen am gyngor arbenigol go iawn ar y goblygiadau i chi a'ch sefydliad. Mae Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol wedi cyhoeddi rhai crynodebau pwysig a defnyddiol o'r hysbysiadau technegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar Brexit heb fargen o ran yr hyn sy'n berthnasol ar gyfer y diwydiannau creadigol (dolen ar ddiwedd y ddogfen).

Pa gamau y dylech eu hystyried?

- Cewch gyngor technegol a chyfreithiol priodol ar oblygiadau rheoliadau sy'n newid
- Adolygwch gontractau presennol gan gadw Brexit yn y cof. Sut y caiff contractau o'r fath eu heffeithio os bydd y DU yn gadael yr UE? Pa hawliau a fyddwch yn gallu eu defnyddio o dan gontractau o'r fath i ddiogelu eich sefyllfa?
- Oes gennych hawliau i amrywio'r telerau yr ydych wedi eu cynnwys mewn contractau, cynyddu eich ffioedd, trosglwyddo costau ychwanegol (e.e. tollau neu dariffau) neu eu terfynu?
- Ystyriwch a oes angen nodau masnach neu amddiffyniad eiddo deallusol ychwanegol ar gyfer eich gwaith
- Ystyriwch yn ofalus oblygiadau tebygol Brexit ar unrhyw gontractau y byddwch yn eu trafod dros y misoedd nesaf. Er enghraifft, a fydd angen arnoch yr hawl i ailymweld â'ch model prisio mewn rhai amgylchiadau penodol?

## Dolenni defnyddiol

Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol, ar gyfer mynediad at y dogfennau canlynol:

— Canllaw ar 'Brexit dim cytundeb', a ysgrifennwyd mewn cydweithrediad â Bates Wells Braithwaite
— Crynodeb yn canolbwyntio ar y diwydiannau creadigol o hysbysiadau technegol y llywodraeth ynghylch 'Brexit dim cytundeb'
— Dogfen baratoadol: Gwybodaeth i gyflogwyr yn y diwydiannau creadigol ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
— Y wybodaeth ddiweddaraf am Brexit dim cytundeb (23.8.19)

Newyddion diweddaraf ar Brexit o Ddesg Ewrop Greadigol y DU

Newyddion diweddaraf ar Brexit gan Erasmus + y DU

Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit

Porth Brexit i Fusnesau Llywodraeth Cymru

Blog tîm ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Porth ymbaratoi at Brexit gan Lywodraeth Prydain

www.instituteforgovernment.org.uk/our-work/brexit

www.pwc.co.uk/the-eu-referendum/brexit-contingency-actions-take-to-prepare- for-no-deal.html

On the Move – rhwydwaith gwybodaeth o ran symudedd diwylliannol – rhestr o adnoddau ar y we am Brexit i weithwyr diwylliannol

Cwestiynau Cyffredin am Brexit gan y BFI